

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Rhwydwaith Arddangos

Cymharu gwahanol ddulliau
o ategu elfennau hybrin

Cysylltedd yng Nghymru

Sicrhau eich bod yn cael y mwyaf
o'ch cysylltiad rhyngwyd



Safle Ffocws: Fferm Pentre, Llan-soe, Brynbuga

Swyddog Technegol: Elan Davies

Teitl y Prosiect: Cymharu gwahanol ddulliau o ategu elfennau hybrin i wella tyfiant ŵyn

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Yn aml bydd ar ŵyn ar eu prifant angen cywiro diffyg elfennau hybrin gydag ategion, ond gall fod yn ddryslyd pa rai i'w defnyddio a phryd. Roedd y prosiect hwn yn ymchwilio i gwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml; beth yw'r ffordd fwyaf addas a chost effeithiol o ategu elfennau hybrin i ŵyn ar eu prifant?

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Asesu effeithiolrwydd tri dull gwahanol o ategu elfennau hybrin i ŵyn (2 folws gwahanol a dos) trwy fonitro a chymharu'r cynnydd dyddiol ym mhwysau'r ŵyn (DLWG).
- Rhoi tystiolaeth dda i seilio penderfyniadau arni wrth gynghori ffermwyr ar sut i atal diffyg elfennau hybrin trwy ategu at eu diet.
- Gwella lles tymor hir yr ŵyn a'r twf economaidd trwy atal diffyg elfennau hybrin.

Beth a wnaed?

Rhannwyd 150 o ŵyn stôr a brynwyd yn dri grŵp o 50 (gan ddefnyddio cynhyrchwr rhifau ar hap). Derbyniodd y tri grŵp y triniaethau canlynol:


- Grŵp 1 - ategion elfennau hybrin trwy ddos sydd ar gael yn fasnachol yn fisol.
- Grŵp 2 - bolws ŵyn Downland Essential.
- Grŵp 3 - bolws ŵyn Ovi-trace Carrs Billington.

Cymerwyd samplau gwaed oddi ar bump oen o bob grŵp i brofi eu lefelau copr (Cu), cobalt (Co) a seleniwm (Se) ar ddechrau, yng nghanol ac ar ddiwedd y cyfnod treialu i weld a oedd lefelau'r elfennau hybrin wedi cynyddu/aros ar y lefel yn unol â'r hyn oedd yn cael ei honni gan y cynhyrchion. Roedd pwysau byw yr ŵyn i gyd yn y tri grŵp yn cael ei fonitro bob pythefnos, a'i gymharu ar ddiwedd y cyfnod treialu.

Casgliadau'r Prosiect

- Roedd pob dull ategu wedi gwella lefelau fitamin B12 yn y gwaed (cobalt).
- Er na ddynodwyd gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng y cynnydd ym mhwysau dyddiol yr ŵyn, roedd y grŵp a dderbyniodd y bolws Downland Essential yn perfformio yn well yn gyson na'r 2 grŵp arall o ŵyn trwy gydol y cyfnod treialu.
- Mae pob system a fferm yn wahanol – siaradwch â'ch milfeddyg cyn rhoi ategion bob amser.
- Cadwch olwg ar ddatblygiad yr hyn yr ydych yn ei wneud ac asesu ei effaith ar berfformiad yr ŵyn.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd dyddiol mewn pwysau (g/dydd) ar gyfer pob grŵp yn rhan gyntaf ac ail ran y prosiect. Y set olaf o fariau yw'r cyfartaledd ar draws y prosiect cyfan. Mae'n ddiddorol nodi bod y cyfraddau tyfu wedi lleihau'n sylweddol yn ail ran y cynllun treialu (er nad oedd unrhyw ddiffyg elfennau hybrin yn amlwg). Fe fyddem yn tybio bod hyn o ganlyniad i'r dirywiad yn ansawdd y glaswellt (gan ei fod yn aeaf arbennig o wlyb).



Mae'r tabl isod yn dangos pa ddull ategu oedd fwyaf cost effeithiol. Wrth edrych ar y tabl hwn, mae'n bwysig cofio bod rhoi dos yn fisol yn drymach o ran llafur na rhoi bolws.

	AllVit Mineral Drench	Downland Essential Lamb Bolus	Tracesure
Technoleg	Amsugno	Erydu (2)	Trwytholchi (1)
Pris/oen am y prosiect	7.2p	53p	85p
Cyfanswm Cynnydd Pwysau Dyddiol (g/dydd)	116	129	115
Marwolaethau	1	4	2

Am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn, ac i ddarllen adroddiad llawn y prosiect; ewch i wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio



Pwysigrwydd creu a rheoli parthau clustogi i gyrsiau dŵr.

Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth, Cyswllt Ffermio

Gall parthau clustogi, gan gynnwys glannau afonydd a choridorau cyfagos ar afonydd a nentydd, fod yn ffactor allweddol wrth gadw, diogelu a gwella amgylchedd y dŵr.

Mae'r parth clustogi yn gweithredu fel tarian a rhwystr sydd yn gweithredu i atal, dal a chadw maetholion a gwaddod mewn hylif llygreddig sy'n rhedeg oddi ar y tir trwy weithgareddau amaethyddol ar dir gerllaw. Mae graddau'r effeithlonrwydd yn dibynnu ar strwythur, cyfansoddiad o ran rhywogaethau a graddfa a lled y parth clustogi. Fodd bynnag, gellir gweld gwrthwynebiad pan fydd pobl yn ystyried bod tir amaethyddol cynhyrchiol yn cael ei golli. Ond wrth edrych yn ôl, dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar sail problemau a nodweddion sy'n benodol i'r safle e.e. colli tir oherwydd erydu eithafol pan fydd llifogydd yn yr afon.

Gall parth clustogi wedi ei gynllunio'n dda adfer a rhoi hwb i lan yr afon trwy ddefnyddio'r modd y mae gwreiddiau planhigion yn rhwymo'r pridd, a thrwy hynny'n creu strwythur i warchod. Bydd hynny'n rhoi sefydlogrwydd i atal erydu a diogelu tir amaethyddol. Gall pridd moel wneud y glannau yn debygol o erydu pan fydd yr afon yn llawn. Bydd effaith deinameg dŵr yn cludo malurion yn defnyddio egni'r dŵr i greu effaith tebyg i sgwrio â thywod ar y glannau. Y canlyniad yw colli pridd a cholli sefydlogrwydd glan yr afon, sy'n trosi'n golled o ran gwerth cyfalaf y tir. Bydd sefydlu llystyfiant amrywiol gan gynnwys coed yn creu carped i glustogi a gwanhau'r egni sy'n cael ei gynhyrchu gan ddeinameg y cwrs dŵr a diogelu sefydlogrwydd y glannau.

Mae tystiolaeth gref bod parthau clustogi sy'n cynnwys coed unigol a choetir ynghyd â chyfraddau ymdreiddiad priddoedd coetir, yn helpu i leihau faint o waddod sy'n mynd i gyrsiau dŵr Darganfu'r astudiaethau ym Mhont Bren ym Mhowys bod y cyfraddau ymdreiddiad hyd at 60 gwaith yn uwch mewn parthau cysgodi coetir ifanc cynhenid mewn cymhariaeth â phorfa. Gall y canlyniadau fod yn effeithiol iawn o ran lleihau faint o lygredd wedi ei wasgaru, gan gynnwys organebau sy'n ddangosyddion ysgarthion, sy'n cael eu cludo. Gall targedu ardaloedd ar hyd ymylon caeau ar lechweddau, a'r llechweddau eu hunain yn benodol, trwy sefydlu parthau clustogi coetir, fod yn neilltuo o effeithiol trwy arafu unrhyw hylif sy'n llifo i ffwrdd ac atal y gwaddod a'r maetholion a gludir dros y tir yn ystod glaw trwm. Gall gadael i anifeiliaid fynd at gyrsiau dŵr hefyd fod yn niweidiol a gall greu problemau o ran llygredd a gwneud y glannau yn fwy tebygol o erydu. Felly, bydd ffensio o amgylch cyrsiau dŵr i atal anifeiliaid gan roi mannau yfed iddynt yn lleihau a datrys problemau o'r fath. Bydd gosod llinell y ffens ar hyd y parth clustogi yn rhoi diffiniad clir er mwyn gwasgaru deunydd organig ac anorganig yn well yn y caeau i atal maetholion rhag llifo i gyrsiau dŵr.

Gall creu cynefin a gwell bioamrywiaeth fod yn rhai o'r enillion mwyaf wrth sefydlu parthau clustogi sy'n creu cysylltiadau trwy gysylltu cynefinoedd tameidiog ac ynysig gan hefyd gynnig cynefin a bwyd i beillwyr a rhywogaethau dŵr fel pysgod ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Gall gwella'r amgylchedd dŵr gynyddu poblogaeth pysgod a chynig cyfleoedd gwahanol i greu refeniw, mewn lleoliadau lle'r ydych yn berchen ar yr hawliau pysgota, gan wella profiad y pysgotwyr.

Yn aml bydd glannau afonydd a chynefinoedd cysylltiedig ar ffermydd yn cael eu hanghofio fel ardaloedd ymylol a llai cynhyrchiol, ond yn aml mae'r rhain yn llawn o gyfalaf naturiol. Gall rheolaeth gyfrifol a chynaliadwy ar y nodweddion hyn yn y tirlun fod yn fanteisiol iawn i ffermwyr,

gyda'r posibilrwydd o wella iechyd y pridd, storio carbon a gwarchod y fferm rhag y prosesau naturiol yn ymwneud â llif y dŵr. Mae'r manteision y gall parthau clustogi eu cynnig yn bellgyrhaeddol a gallant wella, cadw ac ychwanegu at berfformiad amgylcheddol ac economaidd y fferm.



Ffigwr 1 a 2. Erydu glan yr afon - mynediad i anifeiliaid yn arwain at bridd moel a phroblemau erydu pan fydd yr afon yn llawn llif. Bydd gwreiddiau'r coed yn dod i'r golwg a'r coed yn mynd yn ansefydlog ond gall hefyd achosi perygl i les anifeiliaid.



Ffigwr 3. Y canlyniadau flwyddyn yn ddiweddarach ar yr un lan yn dilyn cynllun bôn-docio a phlannu coed a ffensio'r glannau i atal mynediad. Mae gan y parth clustogi hwn garped cyfoethog o llystyfiant i atal erydu ac mae'n cynnig cynefin gwych ar gyfer bioamrywiaeth.

EWCH I WEFAN CYSWLLT FFERMIO AM FANYLION CEFNOGAETH SYDD AR GAEL I'R SECTOR COEDWIGAETH LLYW.CYMRU/CYSWLLTFFERMIO



Bydd perfformiad porfa ar nifer o ffermydd llaeth a da byw ar hyd a lled Cymru yn cael ei fesur a'i fonitro mor aml ag unwaith yr wythnos yn ystod yr hydref wrth i fenter newydd Cyswllt Ffermio gael ei lansio i gyfrannu at y dasg o wella rheoli porfa ar ffermydd Cymru.

Recriwtiwyd 43 o ffermwyr i gadw golwg ar dwf glaswellt ar eu ffermydd ar gyfer Prosiect Porfa Cymru. Dewiswyd pob fferm o raglen Rhagori ar Bori Cyswllt Ffermio.

Mae'r 17 fferm laeth a'r 26 fferm bîff a defaid, a ddewiswyd i roi cynrychiolaeth gytbwys o fathau o dir a systemau, wedi'u lleoli ledled Cymru er mwyn rhoi darlun cywir o botensial twf glaswellt ym mhob rhanbarth.

Mae'r ffermydd llaeth wedi bod yn mesur ac yn monitro twf eu glaswellt bob wythnos a'r ffermydd bîff a defaid bob pythefnos dros y misoedd diwethaf ac mae cyfres o nodiadau rheoli wedi eu cyhoeddi er mwyn cynorthwyo ffermwyr i reoli un o'u hasedau mwyaf gwerthfawr.

Dyma drosolwg o'r cyfraddau twf dyddiol cyfartalog mwyaf diweddar ar draws ein wyth ardal ers 15 Medi.

Map rhanbarthol Prosiect Porfa Cymru



Dyddiad y casglwyd y canlyniadau	Y cyfraddau twf dyddiol cyfartalog ar gyfer ffermydd llaeth	Y cyfraddau twf dyddiol cyfartalog ar gyfer ffermydd bîff a defaid
15/09/20	62kg DM/ha	43kg DM/ha
30/09/20	36kg DM/ha	32kg DM/ha
13/10/20	37kg DM/ha	23kg DM/ha
27/10/20	21kg DM/ha	16 kg DM/ha

Un o amcanion Prosiect Porfa Cymru yw helpu i ddeall effaith rheoli'r tywydd a'r glaswellt ar gynhyrchu porfa.

Bydd y fenter hefyd yn fodd i ddatblygu adnoddau gwneud penderfyniadau ar gyfer rheoli porfa.

Am ddata llawn a chynhwysfawr a'r cyngor rheoli diweddaraf ewch i -

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/tir/glaswellt/prosiect-porfa-cymru>

Strategaeth aml-darged yn lleihau ôl troed carbon ac yn sicrhau'r elw mwyaf

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Jeff Wheeler, ffermwr llaeth o'r drydedd genhedlaeth o Efail Wen yn Sir Benfro wedi cynyddu proffidioldeb a chynaliadwyedd, gan hefyd leihau ôl troed carbon y fferm yn sylweddol.

"Mae llawer o ffermwyr yn meddwl nad yw'r nodau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd, ond mae'r cyfan yn cyd-fynd" dywedodd Jeff.

Diolch i gyngor mentora arbenigol a hyfforddiant trwy gymhorthdal gan Cyswllt Ffermio, mae Jeff a'i wraig Sarah, milfeddyg sydd wedi ymddeol, wedi gweld cynnydd sylweddol ar eu daliad 230 erw. Maent yn awr yn cyfrannu at niwtraleiddio allyriadau carbon o'r fferm trwy gyfuniad o reoli coetir yn weithredol, cynllunio iechyd anifeiliaid a strategaeth reoli pori sydd wedi gwella yn sylweddol.

"Mae'n ddull gyda nifer o dargedau sy'n cael canlyniadau gwych gan warchod yr amgylchedd hefyd,"

Mae'r fferm yn cynnwys coetir coed llydanddail 40 erw o dderw, ynn a bedw. Nid oedd y coed wedi eu cyffwrdd ers degawdau, ond mae'r mentor coetir Cyswllt Ffermio, Neil Stoddard wedi helpu Jeff i drawsnewid yr ased hwn oedd yn dirywio yn goetir ffyniannus sy'n awr yn ennill llawer mwy na mae'n ei gostio i'w chynnal, ac mae'r elw yn ddi-dreth. Bydd y gwaith adfer a wnaed yn cynnig buddion tymor hir, yn arbennig ar gyfer y buchod sy'n cerdded ar hyd traciau sydd wedi eu gwella ac yn cael eu cadw mewn trefn, gan leihau'r risg o gloffni a phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â stoc yn croesi cynefin gwael.

Mae dros chwe blynedd ers i Jeff a Sarah gyfnewid buches Holstein bedigri'r teulu am 150 o fuchod croesfrid sydd yn awr yn cynhyrchu tua un filiwn litr o laeth o safon uchel y flwyddyn, sy'n cael ei werthu i gynhyrchu caws i First Milk.

"Mae gwartheg croesfrid yn cynhyrchu buchod caletach sy'n dueddol o fod yn llai ac iachach sy'n golygu eu bod allan yn pori am gyfnod hwy; maen nhw'n cynhyrchu llai o dail a methan ac yn gyffredinol mae arnyn nhw angen llai o wrthfotig na llawer o fri diau eraill."

Mae Jeff a Sarah hefyd wedi dilyn amryw o gyrsiau hyfforddi gyda chymhorthdal Cyswllt Ffermio gan gynnwys trimio traed, cloffni gwartheg, hwsmonaeth anifeiliaid a rheoli pori.


Er mwyn gweld holl hanes y ffordd y mae Jeff a Sarah wedi trawsnewid eu busnes godro teuluol, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio

CYSYLLTEDD YNG NGHYMURU

Gyda llawer ohonom yn treulio mwy o'n hamser gartref, mae cyflymder a dibynadwyedd ein cyswllt rhyngwyd yn bwysicach nag erioed. Mae nifer o ffyrdd o sicrhau eich bod yn cael y mwyaf o'ch cysylltiad rhyngwyd.

Rhai awgrymiadau cyflym i roi cynnig arnyn nhw...

- ✓ Ailosod eich llwybrydd trwy ei ddiffodd, diffodd derbynwyr Wi-Fi blychau ar ben y teledu a gliniaduron, aros tua 30 eiliad ac yna eu rhoi yn ôl ymlaen.
- ✓ Gall symud eich llwybrydd yn nes at soced eich ffôn a thynnu unrhyw geblau ymestyn neu ail soced ffôn y gall fod wedi ei gysylltu â hi helpu i wella eich cysylltiad.
- ✓ Bydd rhedeg prawf cyflymder yn rhoi syniad llawer cliriach i chi o'r lled band sydd gennych gartref a beth yw cyfyngiadau eich band eang gartref.



Gall rhedeg profion cyflymder cyson hefyd roi syniad cliriach i chi o'r amseroedd o'r dydd pan fydd eich band eang yn perfformio ar ei orau ac ar ei waethaf. Gallwch wedyn drefnu amser ar gyfer tasgau sy'n defnyddio llawer o'r lled band, fel galwadau fideo a ffrydio HD, pan fydd gennych y cyflymder band eang gorau. I gael y canlyniadau mwyaf cywir, defnyddiwch gebl i gysylltu eich cyfrifiadur â'ch llwybrydd. Os byddwch chi angen rhoi prawf heb gyswllt wifren, ewch mor agos ag y gallwch at y llwybrydd. Gwnewch yn siŵr nad oes dim byd arall yn defnyddio eich cyswllt rhyngwyd nag yn rhedeg ar eich cyfrifiadur, wrth gyflawni'r prawf. Teipiwch 'internet speed test' i'ch peiriant chwilio ac fe ddylai adael i chi ei brofi. Dim ond ychydig eiliadau ddylai hyn ei gymryd.

Beth yw fy newisiadau eraill?

Gwiriwch os gallwch gysylltu â gwasanaeth band eang ffibr. Cyflwynodd rhaglen Superfast Cymru gydag Openreach gyswllt band eang cyflym iawn ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi a busnesau yng Nghymru. Efallai y gallwch chi gael band eang cyflymach yn barod. Mae cyflenwyr eraill sydd yn cynnig band eang yng Nghymru. Gwiriwch yn uniongyrchol gyda darparwyr band eang neu trwy wefannau cymharu prisiau.

Gwiriwch y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae Openreach yn cyflwyno rhagor o fand eang i gartrefi a busnesau gan ddefnyddio cymysgedd o gyllid cyhoeddus a phreifat. Bydd hyn yn ymdrin â rhai, ond nid y cyfan, o'r adeiladau heb gyswllt â band eang cyflym, dibynadwy. Mae cwmnïau preifat hefyd yn ehangu eu rhwydweithiau felly gwiriwch yn uniongyrchol â darparwyr band eang i weld os allech chi fod yn rhan o'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae Allwedd Band Eang Cymru yn gynllun ariannwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi grantiau i ariannu (neu ariannu yn rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru. Bydd y swm o gyllid sydd ar gael yn dibynnu ar gyflymder eich cysylltiad newydd. Er mwyn gweld y meini prawf ac amodau'r cynllun gweler <https://llyw.cymru/cyflumu/rhowch-hwb-ich-band-eang>

Os ydych yn rhan o gymuned wledig, efallai y bydd cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gysylltu band eang all gyrraedd gigabit. Gall y rhai â chyflymder o lai na 30Mbps fod yn gymwys ar gyfer cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau hyn ar ffurf Talebau Cysylltedd Gigabit Gwledig. <https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/Wales/>

Efallai y bydd werth i chi gysylltu â'ch cyngor lleol, cyngor cymuned neu grŵp cymunedol i weld a oes prosiectau yn y gymuned ar y gweill neu wedi eu cynllunio ar gyfer eich ardal. Dan y cynlluniau hyn, mae grwpiau cymunedol wedi ffurfio partneriaeth gyda rhwydweithiau band eang i gyflwyno gwasanaethau cyflym iawn, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn cael gwasanaeth gan y darparwyr prif ffrwd ar hyn o bryd.

Mae band eang 4G yn wasanaeth rhyngwyd sy'n defnyddio 4G yn hytrach na llinell ffôn neu ffibr. Y darparwyr band eang 4G yw: EE, Three UK, O2 a Vodafone. Ceir hefyd "Weithredwyr Ffonau Symudol Rhithiol" sy'n gweithio dros y seilwaith rhwydwaith a ddarperir gan y pedwar prif gwmni rhwydweithiau symudol uchod.

RHAGOR O GEFNOGAETH AR GAEL TRWY CYSWLLT FFERMIO

- **Rhaglen TGCh** ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant neu cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.
- Er gwaethaf y cyfyngiadau presennol ar hyfforddiant wyneb yn wyneb, mae ein hyfforddiant cyfrifiadurol sy'n cael ei ariannu yn llawn, ar gael ar-lein, yn ddigidol neu dros y ffôn yn awr; i fusnesau fferm a choedwigaeth cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.
Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru eich diddordeb ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio neu cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813.
- **Gweminar:** 'A fyddai band eang 4G yn gweithio i chi?' Ymunwch â Cyswllt Ffermio a Peter Williams, Llywodraeth Cymru i ddysgu beth yw band eang 4G ac i gael gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael ar gyfer y dechnoleg yma. Ar gael i'w wyllo ar wefan Cyswllt Ffermio yn awr.
- **Taflen wybodaeth:** Dewisiadau Band Eang 4G ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.



RHAGORI AR BORI
PROSPER FROM PASTURE

*Gwella dyfodol systemau da
byw sy'n seiliedig ar borfa*

Pori ar badogau yn helpu fferm ddefaid yng Nghymru i ragori ar bori

Mae ffermwr ifanc a ysbrydolwyd i newid ei reolaeth ar laswellt gan wybodaeth a gafodd mewn dau gynllun gan Cyswllt Ffermio yn gorffen ei ŵyn ynghynt ac yn drymach ar ddiët o laswellt a meillion coch yn unig.

Mae Bleddyn Davies, sy'n cadw diadell o 880 o famogiaid ac ŵyn benyw gyda'i rieni, John ac Audrey, wedi gwella'r defnydd o laswellt a'i ansawdd trwy bori mewn criwiau ar badogau dau hectar (ha).

Cafodd yr hyder i newid o stocio sefydlog i bori padogau ar ôl mynd i weithdai Meistr ar Borfa gan Cyswllt Ffermio a chael lle ar raglen Rhagori ar Bori Cyswllt Ffermio.

Mae'r ddau wedi eu dylunio i helpu ffermwyr i ddod yn well rheolwyr glaswelltir.

Mae ffenestr ymgeisio newydd ar gyfer Rhagori ar Bori yn agor rhwng **26 Hydref a 26 Tachwedd**. Er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio, rhaid i ymgeiswyr fod â Chynllun Rheoli Maetholion diweddar ac os oes arnyn nhw angen cymorth gyda hyn, fe'u cynghorir i gysylltu â'u swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol.

Mae Bleddyn yn annog ffermwyr i ymgeisio. "Manteisiwch ar y rhaglen yma a chynlluniau eraill sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio, mae wedi gwneud ein busnes ni yn gryfach."

Yn 2020 o ganlyniad uniongyrchol i bori ar badogau a gwell rheolaeth ar laswelltir, gwerthodd y teulu Davies 100 yn fwy o ŵyn cyn eu diddyfnu mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, ac yn drymach hefyd.

Mae'r caeau ym Mlaenglowon Fawr, Llandysul yn fawr – rhai yn 9-12ha – a phan oedden nhw'n cael eu stocio yn sefydlog roedd prinder glaswellt cyn i'r defaid gael eu troi i mewn.

Maent yn awr yn cael eu rhannu yn badogau gyda ffens drydan dri llinyn.

Mae criw o 230 o famogiaid a'u hŵyn yn pori pob cae dair i bedair wythnos ar ôl ŵyna – maent yn cael eu stocio yn sefydlog wrth eu troi allan, system sy'n cael ei defnyddio wrth droi at yr hwrdd hefyd.

Bydd y gorchudd glaswellt ar gyfartaledd yn 2,200–2,300kgDM/ha wrth droi allan; maent yn cael eu gorffwys am 120 diwrnod dros y gaeaf ac ni fydd y defaid ar y caeau y byddant yn eu pori cyn ŵyna tan fis Mai.

Gwelodd Bleddyn mai pori pob padog am dri i bedwar diwrnod oedd yn gweithio orau i'w system, gan gydbwysu cynhyrchiant heb y straen o symud defaid bob dydd; bydd y gwndwn yn cael ei bori i lawr i 1,500-1,600kgDM/ha.

Trwy bori mewn criwiau mewn ardaloedd bychan mae'n tyfu mwy o laswellt ac mae'r gwndwn o ansawdd gwell.

"Mae'r glaswellt yn ail-dyfu yn rhagorol, mae'n debycach i adlodd silwair," dywed.

"Oherwydd nad yw'r glaswellt yn cael ei ddirodi na'i or-bori fel y mae gyda stocio sefydlog mae'n dod yn ôl yn gryfach ac mae'r ŵyn yn pesgi'n dda arno."

Mae hyd yn oed yn lleihau'r baich o lyngyr ac rydym yn rhoi llai o driniaethau erbyn hyn.

Arweiniodd y newidiadau a wnaed i reolaeth y glaswelltir at weld y defnydd o wrtaith yn gostwng o ddau draean – roedd cyfartaledd o 15 tonnall yn arfer cael ei chwalu ar y daliad 121ha yn ystod y tymor tyfu, ond 5t a ddefnyddir erbyn hyn.

Byddai'r ŵyn wedi cael dwysfwyd ym mis Medi, i'w paratoi i'w gwerthu, ond mae meillion coch yn gwneud y gwaith hwnnw erbyn hyn.

Erbyn canol Awst, roedd 210 o ŵyn o'r ddiadell Gymreig a Chymreig x Aberfield wedi eu gwerthu i Dunbia ar y cynllun 'Taste the Difference' ar gyfartaledd o 96 diwrnod i'w lladd a phwysau ar y bach ar gyfartaledd o 18.3kg.

Mae perfformiad y fferm eleni wedi rhoi hyder i Bleddyn y gall y system weithio mewn cyfnodau o dywydd gwahanol – hyd yn oed yn ystod y cyfnod sych ym mis Mai, roedd y cyflenwad o laswellt yn ddigonol.

"Roedd y padogau yn cael seibiant ac fe wnaeth y cyflenwad glaswellt lwyddo i gadw ar y blaen iddyn nhw."

Mae mamogiaid cyfeb yn awr yn aros ar laswellt hyd at 10 diwrnod cyn ŵyna - roedd yn dair i bedair wythnos cyn hynny.

"Mae pori padogau wedi gwneud i mi sylweddoli nad oedd rhai o'r costau oedd gennym gynt yn angenrheidiol, mae wedi dangos gwir werth glaswellt i mi."

Mae'r cyfarfodydd Rhagori ar Bori ar fferydd, mewnbyn technegol gan Precision Grazing a rhannu syniadau gydag aelodau eraill y grŵp wedi helpu Bleddyn wrth iddo wneud penderfyniadau.

Derbyniodd gyngor wyneb yn wyneb gan Rhys Williams, ymgynghorydd yn Precision Grazing.

"Fe welodd Bleddyn yr enillion posibl y gallai pori cylchdro eu cynnig i'w fusnes," dywedodd Rhys.

"Fe ofynnodd am gyngor, roedd yn ddigon hyderus i wneud newidiadau rheoli sylweddol ac mae'n awr yn medi hynny."

Bydd y ffenestr ymgeisio ar agor rhwng - 26/10/2020 - 26/11/2020
Gwnewch y mwyaf o'r cyfle! www.llyw.cymru/cyswlltffermio

SUROP BEDW – Costrelu cynnyrch bwyd newydd o Gymru

Mae surop masarn, y bwyd melys a all fynd ar eich grawnfwyd, ar gig, ac yn eich coffi yn gyfystyr â Chanada a Gogledd America. Ond ar y llaw arall mae surop bedw yn gynnyrch nad yw'r mwyafrif ohonom yn gyfarwydd ag o ac mae'n cael ei ystyried yn un o'r cynhyrchion bwyd arbenigol prinnaf yn y byd. Mae surop bedw yn cynnwys hanner y siwgr sydd mewn surop masarn ond mae mwy o botasiwm, calsiwm a magnesiwm ynddo. Fe'i cynhyrchir ar raddfa fechan iawn yn Alaska a Chanada a gall werthu am hyd at bum gwaith pris surop masarn. Mae iddo flas unigryw iawn, a ddisgrifir yn aml fel ychydig yn hallt gydag awgrym o gyrens ac aeron.

Y prosiect hwn gan EIP Wales, sy'n digwydd ar draws pedwar safle, fydd y cyntaf yng Nghymru i ganolbwyntio ar gynhyrchu sudd bedw. Bedw sy'n drydydd yn y rhestr o'r coed llydanddail mwyaf cyffredin yng Nghymru gan orchuddio 2,000 ha o Fforest Llywodraeth Cymru (CNC) fe amcangyfrifir a 11,000 ha o goetir preifat, llawer o'r rheiny ar ffermydd. Gan fod bedw yn adnodd sy'n cael ei danddefnyddio yng Nghymru, yn nodweddiadol fe'i defnyddir ar gyfer coed tân yn unig, gallai surop bedw gynniig cyfle gwyb i wneud gwell defnydd o'r rhywogaeth gyffredin yma.

Y prif rwystr ar gyfer cynhyrchu sudd bedw yn fasnachol yw ei fod yn fyrhoedlog iawn a dim ond am 24 awr y gall oroesi ar y silff ar 5°C. Rhaid i'r sudd gael ei gadw trwy gynyddu'r crynhoad o sudd sawl gwaith



Coed bedw wedi hen sefydlu



i'w droi yn surop yn fuan ar ôl ei gael o'r goeden i'w wneud yn fwy sefydlog i'w storio a'i gludo. Byddai cael gwared ar y rhwystr hwn i farchnata wrth gynaeafu yn rhoi cyfle i goedwigwyr a ffermwyr ystyried surop bedw fel dewis arallgyfeirio hyfyw.

Yn ystod y prosiect dwy flynedd hwn bydd lleiafswm o 600 litr o sudd yn cael ei dynnu o gyfanswm o 60 o goed ar draws pedwar safle. Bydd tri dull gwahanol o drin yn cael eu cymharu o ran effeithlonrwydd wrth droi sudd yn grynhoed ar raddfeydd cynhyrchu gwahanol. Gall dulliau gwahanol o grynhoi'r sudd bedw fod yn fwy addas ar gyfer cynhyrchu ar raddfa fach neu fawr, a phan fydd trydan neu ddiogelwch yn ddiffygiol. Bydd y prosiect yn ymchwilio i dri dull gwahanol;

- **Stôf goed tu allan:** Mae'r sudd yn cael ei ferwi mewn padelli anweddu i grynhoed siwgr o dan 20%.
- **Osmosis gwrthdro:** Mae'r sudd yn cael ei wthio trwy bwmp gwactod a hidlenni osmosis microhydraidd sy'n dod â'r sudd i lawr i tua 15% o grynhoed siwgr.
- **Wrn:** Mae wrn drydan sy'n cael ei rheoli o ran gwres yn cynhesu'r surop ac yn ei ddwsáu i grynhoed siwgr dan 20%.

Bydd y dulliau hyn yn cael eu cymharu ar sail:

- Costau cyfalaf sefydlu
- Amser cadw i gynhyrchu'r crynhoad addas o'r sudd
- Logisteg
- Costau gweithredu – costau tanwydd yn benodol
- Ansawdd y cynnyrch e.e. cyfanswm y cynnwys siwgr, lliw a blas



Bedwen yn cael ei thapio. Bydd y sudd yn rhedeg am 3-4 wythnos yn y gwanwyn gan ddechrau yn hwyr ym mis Chwefror a gorffen yn gynnar ym mis Ebrill gyda phob coeden yn cael ei thapio unwaith ym mhob tymor. Dim ond coed sydd wedi hen sefydlu gyda diamedr ar uchder brest yn fwy na 20cm sy'n addas i'w tapio. Rhoddir piben yn y goeden tua 4cm o ddyfnder a rhwng 30 a 80cm o'r ddaear ar ychydig o ongl am i lawr. Cysylltir y biben â photel gasglu trwy diwb ac mae'n aros yno am rhwng 10 ac 20 diwrnod gyda'r sudd yn cael ei wagio yn ddyddiol i'w gadw. Gall un goeden gynhyrchu rhwng 1-2 litr o sudd y dydd. Er mwyn cynhyrchu 1 litr o surop, mae angen 100 litr o'r sudd!

Gobeithio y bydd y prosiect yn codi ymwybyddiaeth am y cynnyrch prin yma a sut y gall gynniig cyfleoedd i fentro ar amrywiaeth o raddfeydd. Trwy gynyddu ein dealltwriaeth o'r broses dapio a'r technegau cadw dylai'r prosiect hwn gynniig sylfaen gref i unrhyw un sy'n dymuno dechrau cynhyrchu surop bedw, i naill ai ei werthu ei hun neu ei werthu ymlaen i'r sector bwyd arbenigol. Beth am wneud surop bedw yn gyfystyr â Chymru?

Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar wefan Cyswllt Ffermio.

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/partneriaeth-arloesi-ewrop-yng-nghymru-eip-wales/prosiectau-eip-wediu-cymeradwyo/cymharu>



Bydd gweithdai 'cloffni defaid' wedi eu hariannu'n llawn Cyswllt Ffermio yn helpu ffermwyr i dacro'r broblem boenus hon

Mae cloffni mewn defaid yn costio tua £28miliwn y flwyddyn i ffermwyr y Deyrnas Unedig, ond gall ffermwyr Cymru gael y wybodaeth y mae arnyn nhw ei hangen i dacro'r broblem cyn iddi effeithio ar naill ai les eu diadell neu'r arian yn y banc.

Cyhoeddodd Cyswllt Ffermio weithdy 'cloffni defaid' newydd fel rhan o'i raglen hyfforddi Iechyd a Lles Anifeiliaid boblogaidd sydd wedi ei hariannu'n llawn. Bydd y gweithdai yn cael eu cyflwyno ledled Cymru gan filfeddygon wedi eu cymeradwyo wyneb yn wyneb gan gadw at y cyfarwyddyd Covid-19 diweddaraf, a byddant yn cymryd tua tair awr i gyd, neu gellir eu gweld ar-lein trwy weminar 1.5 awr.

Mae rheolwraig Iechyd a Lles Anifeiliaid ac E-ddysgu Cyswllt Ffermio, Rebecca Summons, yn cynghori pob ffermwr defaid i gymryd rhan yn y seminarau byr, llawn gwybodaeth yma.

"Bydd mynychu un o'r gweithdai penodol i sector yma yn sicrhau eich bod yn dysgu sut i atal, rheoli a thrin cloffni defaid yn eich diadell.

"Credir bod bron i ddwy ran o dair o'r gwrthfotig a ddefnyddir ar gyfer defaid yn cael ei ddefnyddio i drin cloffni -

ystadegyn y mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o'i ostwng fel rhan o'i amcanion fframwaith iechyd a lles anifeiliaid," dywedodd Ms Summons.

Bydd pob cwrs yn cynnig cyfarwyddyd ar faterion fel bioddiogelwch a chymau biogaethiwo; yn rhoi cyngor am lunio cynllun iechyd penodol i gloffni ac yn esbonio sut i ymdrin ag achosion heintus cloffni fel sgald, clwy'r traed a CODD yn ogystal ag achosion heb fod yn heintus.

Gall ffermwyr roi hwb pellach i'w gwybodaeth am iechyd anifeiliaid trwy ddefnyddio cyrsiau e-ddysgu rhyngweithiol Cyswllt Ffermio, sy'n cynnwys nifer o fodylau yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid a fydd yn cyd-fynd â'r gweithdai, yn trin pynciau gan gynnwys gwrthedd anthelmintig; cyfraddau atgenhedlu tymhorol mewn mamogaid; claf ac elfennau hybrin mewn defaid.

Bydd cofnodion o'r holl hyfforddiant ac e-ddysgu yn cael eu huwchlwytho ar gofnod datblygiad proffesiynol ar-lein, Storfa Sgiliau, pawb sy'n cymryd rhan.

Am ragor o wybodaeth am ddyddiadau ac amseroedd y gweithdai sydd ar y gweill, ewch i - llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant

**PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU**



Iechyd a Diogelwch ar y Fferm

Trin da byw

Bob blwyddyn, mae nifer o ddamweiniau angheuol ar ffermydd yn digwydd oherwydd bod ffermwyr yn bod yn hunanodlon heb gymryd y camau priodol i sicrhau eu diogelwch rhag eu hanifeiliaid.

Pan fyddwch chi'n gweithio gyda da byw, meddyliwch am yr hyn sy'n cynyddu'r risgiau

1. Dewiswch a defnyddiwch offer pwrpasol i drin da byw yn ddiogel sydd wedi eu cynllunio yn dda ar yr iard, mewn adeilad neu mewn cae. Sicrhewch eu bod mewn cyflwr da.
2. Peidiwch byth â mynd i mewn i loc â tharw rhydd neu fuwch â llo wrth ei throed sydd heb ei chlymu.
3. Os yn bosibl, cadwch dda byw ar wahân i'r cyhoedd, dewiswch gaeau heb hawliau tramwy ar gyfer gwartheg a llo wrth droed.

PEIDIWCH BYTH A CHYMRYD YN GANIATAOL Y BYDD ANIFEILIAID YN GWNEUD YR HYN YR YDYCH YN EI DDISGWYL IDDYNT WNEUD



@farmsafetywales



Diogelwch Fferm Cymru - Farm Safety Wales

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.



Dr Cate Williams o'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn sôn am y ffordd y gall systemau gwahanol i gadw moch dan do ddylanwadu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae moch yn cynhyrchu llawer llai o allyriadau na chilgnowyr; ond mae'r nifer o anifeiliaid unigol a dwyster y system yn golygu bod yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yn dal yn sylweddol. Wrth fagu moch, mae'r rhan fwyaf o'r nwyon tŷ gwydr yn deillio o'r tail - y ffordd y mae'n cael ei drin, ei storio a'i ddefnyddio. Mae carbon deuocsid (CO_2), methan (CH_4) ac yn fwyaf arwyddocaol, ocsid nitrus (N_2O) trwy amonia (NH_3), yn deillio o dail moch.

SIEDIAU A LLINIARU

Defnyddir lloriau delltlog gyda phyllau slyri oddi tanynt yn aml i fagu moch, er bod gwasarn dwfn hefyd yn boblogaidd yng Nghymru mewn systemau llai, llai dwys. Ond, pan brofwyd hynny, roedd moch mewn gwasarn dwfn yn cynhyrchu 20% yn fwy o nwyon tŷ gwydr na'r rhai oedd yn cael eu cadw ar loriau delltlog. Roedd allyriadau NH_3 ac N_2O yn ogystal ag ager dŵr yn dyblu bron mewn moch mewn gwasarn dwfn, gyda CH_4 a CO_2 yn aros yn debyg. Mae hyn yn wir oherwydd bod gwasarn dwfn yn cynnig amodau mwy ffafriol ar gyfer microbau sy'n cynhyrchu N_2O . Yn ychwanegol, gall symud y slyri yn gyson leihau allyriadau (o hyd at 40%), wrth i'r gronfa o ficrobau sy'n cynhyrchu nwyon tŷ gwydr gael eu gwaredu gyda'r gwastraff.


MANNAU STORIO

Mae tail yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr ar bob cam yn ei oes. Er mwyn lleihau'r allyriadau wrth ei storio, argymhellir offer wedi eu selio neu eu gorchuddio a/neu drin gydag asid i leihau'r pH a ffurfio amoniwm yn hytrach nag amonia. Nid yw amoniwm yn anweddu ac ni ellir ei ddefnyddio i ffurfio N_2O , ond mae yn gwella gwerth y tail fel gwrtaith trwy gynyddu'r N.

CHWALU

Mae tail moch hefyd yn addas iawn ar gyfer treulio anaerobig (AD). Mae AD yn cynnig y cyfle i gynhyrchu bionwy, ffynhonnell ynni adnewyddadwy a phan fydd yn cael ei dreulio ar y cyd gyda chyfuniadau eraill (e.e. slyri godro neu wastraff bwyd) mae'n cynhyrchu bio-wrtaith dwys iawn a gwerthfawr. Anfantais y gwrtaith hwn yw ei anweddolrwydd sy'n golygu y dylid defnyddio dulliau chwalu gwahanol, fel chwistrellu bas neu esgid lusgo. Mae'r dulliau hyn yn lleihau'r risg o allyriadau nwy, trwytholchi a'r tail yn rhedeg oddi ar y tir gan sicrhau bod y tir yn cael maetholion o safon uchel sydd ar gael ar y fferm. Gall hyn leihau'r ddibyniaeth ar wrtaith/mwynau a brynnir i mewn a gall y bionwy sy'n deillio o'r treulio anaerobig gael ei werthu yn ôl i'r grid, os nad yw'n cael ei ddefnyddio ar y safle.

Pan na fydd cynhyrchu bwyd yn cael ei gynnwys, mae tail yn cyfrif am 89% o'r nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o gynhyrchu moch, sy'n golygu mai dyma'r maes lle mae mwyaf o botensial i liniaru'r allyriadau. Gydag ychydig o addasu a blaengaredd mae potensial i wneud defnydd da, cynaliadwy o dail moch a lleihau allyriadau sy'n deillio o siediau moch.



Rydym yn byw mewn oes ddigidol!

Mae'r busnesau fferm a choedwigaeth mwyaf blaengar yn manteisio arno – ond dim ond os oes ganddyn nhw'r sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) iawn!

Beth bynnag yw lefel eich sgiliau, gall hyfforddiant cyfrifiadurol eich helpu i...

- ...reoli eich busnes yn fwy effeithlon
- ...leihau gwaith papur
- ...arbed amser ac arian

Tiwtora un i un i'r rhai â sgiliau TGCh sylfaenol

- Hyd at ddwy sgwrs ar y ffôn neu gymorth digidol wedi eu hariannu yn llawn gan diwtoriaid TG arbenigol
- Yr hyfforddiant yn cael ei addasu i'ch gofynion, gan ganolbwyntio ar unrhyw broblemau neu fylchau yn eich gwybodaeth

Gallwch ddysgu sut i:

- Ddefnyddio gwefannau defnyddiol all fod yn berthnasol i'ch busnes
- Ddefnyddio unrhyw becynnau meddalwedd yr ydych wedi eu prynu
- Ddatrys unrhyw broblemau yn gysylltiedig â TG ar eich dyfais personol (e.e. cyfrifiadur personol, gliniadur, tabled, ffôn symudol)

Er mwyn cael hyfforddiant TGCh wedi ei ariannu'n llawn cysylltwch â Cyswllt Ffermio neu, ewch i

llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant



Storfa Sgiliau

...yr adnodd storio data diogel, ar-lein ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

Storfa Sgiliau... yr adnodd datblygiad proffesiynol unigryw, ar-lein sy'n cofnodi **eich holl** lwyddiannau, hyfforddiant a gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth yn eich cyfrif personol, ar-lein.

Mae datblygu proffesiynol yn ymwneud â chael gwybodaeth a sgiliau newydd. Hebddo, efallai na fydd eich busnes yn gweithredu ar y lefel orau un neu efallai na fydd yn cyflawni ei botensial.

Ar yr amod eich bod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ac wedi sefydlu eich cyfrif BOSS eich hun trwy Sign on Cymru, bydd Storfa Sgiliau yn rhoi mynediad ar unwaith i chi at...

- adroddiad digidol neu y gellir ei lawrlwytho, yn nodi eich holl sgiliau, hyfforddiant a llwyddiannau academaidd/proffesiynol/tystysgrifau/diplomas perthnasol ac ati
- dystiolaeth o'r hyfforddiant a ddilynwyd, er enghraifft, Cynlluniau Sicrwydd Fferm a sefydliadau cadwyn gyflenwi
- y cyfarwyddyd a'r ffeithiau y gall fod arnoch eu hangen i gael CV cyfredol fydd yn 'tynnu sylw'

Bydd yr holl hyfforddiant a gweithgareddau/tystysgrifau trosglwyddo gwybodaeth yn cael eu llwytho ar eich rhan. Ychwanegwch unrhyw wybodaeth ychwanegol eich hun yn 'Fy Lle'.

Er mwyn dysgu sut i gael mynediad, storio a diweddarau eich holl gofnodion datblygiad personol Storfa Sgiliau, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermiostorfasgiliau

Mae help ar gael os oes arnoch angen rhagor o gyfarwyddyd, cysylltwch â...

- ✓ eich swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol
- ✓ y darparwr hyfforddiant a ddewiswyd gennych
- ✓ Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio



YouTube



Ydych chi wedi methu gweminar Cyswllt Ffermio neu ddigwyddiad Yn Fyw o'r Fferm Arddangos, neu ein fidoes Canllaw i Reolaeth Glaswellt diweddar? Ydych chi eisiau cyfle i ail-wyllo?

Mae pob un o'n gweminarau, podlediadau a'n clipiau fideo ar gael ar ein sianel YouTube er mwyn eich galluogi i'w gwyllo ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Chwiliwch am 'Cyswllt Ffermio | Farming Connect' ar YouTube

Rydym ni wedi trafod ystod eang o bynciau ac wedi siarad gydag arbenigwyr o'r diwydiant!

- Glaswellt a rheoli'r borfa • Priddoedd a chynllunio rheoli maetholion • Arallgyfeirio
- Merched mewn amaeth • Ffermio a'r amgylchedd • Iechyd a diogelwch ar y fferm

Gwylwch, tanysgrifiwch, rhannwch
Cyswllt Ffermio ar YouTube



Watch, subscribe, share
Farming Connect on YouTube



PODLEDIAD CLUST I'R DDAEAR

Cafodd y podlediad ei lansio ym mis Medi 2019, a dyma'r tro cyntaf i bodlediad ffermio o'r fath fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ei nod yw rhannu cyngor, cefnogaeth ac ysbrydoliaeth gyda'r gymuned amaethyddol yng Nghymru.

Y bennod ddiweddaraf:

Rhifyn 28 -

Rheoli porfa'r ucheldir er budd economaidd ac amgylcheddol